**COFNODION LGH-05-03 (cof)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 5 MAWRTH 2003**

**Amser: 09.30am - 12.35pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 3, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Pauline Jarman (o 10.02am) | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr y Grwp Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant |
| David A’Herne | Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu |
| Kate Cassidy | Pennaeth yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| Frank Cuthbert | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Aneurin Owen | CAIS |
| Emlyn Jenkins | DARE |
| Alistair Lang | DARE |
| Roger Duncan | Prosiect Cyffuriau Abertawe |
| Dr Mel Bagshaw | Cardiff Addictions Unit |
| Richard Pates | Cardiff Addictions Unit |
| Rhoda Emlyn-Jones | Cardiff Addictions Unit |
| Andy Evason | Cyngor Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau Gorllewin Morgannwg |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**<u>09.30am hyd 09.32am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

2. Dywedodd y Cadeirydd fod Tom Middlehurst a Dai Lloyd wedi ymddiheuro eu bod yn methu â bod yno ond nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw eilyddion. Ychwanegodd ei bod ar ddeall y byddai Pauline Jarman yn hwyr yn cyrraedd.
3. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni chafwyd rhai.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2003.**

**LGH-04-03(cof)**

2.1 Cymeradwywyd y cofnodion.

**<u>09.32am – 09.34am</u>**

**Eitem 3: Adolygiad Polisi ar Feithrin Gallu a Hyfforddiant: Ystyried drafft terfynol yr adroddiad.**
**LGH-05-03(p.1)**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, fod y newidiadau a awgrymwyd wedi'u hymgorffori yn fersiwn diwygiedig yr adroddiad a ddosbarthwyd yr wythnos diwethaf er mwyn i bobl wneud sylwadau arno. O ganlyniad i'r ymarfer hwnnw, derbyniwyd rhagor o sylwadau a oedd hefyd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oeddent yn hapus i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Dywedodd y byddai'r adroddiad yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth a'r cynllun oedd ei lansio'n swyddogol ar 3 Ebrill.

2. Gwnaed cais ar i Argymhelliad 10 gael ei gryfhau i gynnwys cyfeiriad at bob cais am loteri.

3.3 Cymeradwywyd yr Adroddiad.

**<u>09.34am – 09.57am</u>**

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog**
**LGH-05-03(p.2)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:

- **Mesur Trwyddedu** – nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynglyn â'r mater hwn ar hyn o bryd a rhoddir y newyddion diweddaraf yn y cyfarfod nesaf, os bydd unrhyw newidiadau.
- **Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol** - dywedodd y dylai paragraff 2 ddweud bod swyddogion wrthi'n ymgynghori â staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau'r timau hyn ac undebau llafur...

2. Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- **Mesur Trwyddedu** - croesawyd y newid ynghylch adloniant mewn llefydd heb drwydded. Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch yn y gymuned a gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried rhoi canllawiau i awdurdodau lleol gyda'r nod o ymgynghori â phobl sy'n byw gerllaw llefydd sy'n ceisio'r trwyddedau dan sylw. Nodwyd bod rhai awdurdodau lleol yn aneglur ynghylch yr hyn y mae angen i gynghorwyr ei ddatgan a gofynnwyd am gyngor.
- **Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** - gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried cyflwyno papur ar gasineb hiliol. Gofynnwyd iddi dynnu sylw hefyd at sut y bydd y ffrydiau ariannu newydd yn gweithio ac a fyddai modd cario arian drosodd o'r flwyddyn ariannol hon. Nodwyd bod arian wedi'i ryddhau yn y gorffennol ar gyfer gosod systemau Teledu Cylch Cyfyng a gofynnwyd i'r Gweinidog ddweud mwy am ba grantiau ac amodau, mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau, a fyddai ar gael yn y flwyddyn ariannol newydd. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai cynllun arfaethedig Heddlu'r Cynulliad yn cydgysylltu â gwaith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
- **Safon Ansawdd Tai Cymru** - gofynnwyd i'r Gweinidog sut yr oedd yn gweld hyn yn datblygu.
- **Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol** - codwyd pryder y gallai'r cydweithio a'r strwythurau datblygu presennol ymhlith sefydliadau gael eu colli gyda dyfodiad y drefn newydd. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y mae'n rhagweld y bydd y gwahanol sefydliadau yn cydweithio. Gofynnwyd iddi ddweud mwy am waith y Comisiwn Archwilio a Byrddau Iechyd Lleol yn y dyfodol yn sgil ad-drefnu Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol.
- **Cyfleusterau Ailsefydlu Preswyl ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau** - gofynnwyd i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion.
- **Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf** - faint o'r 79 o gyw-Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n ymestyn dros 1 ward a sut maen nhw'n cydgysylltu â chynlluniau adfywio cymunedol?
- **Camddefnyddio Sylweddau** - croesawyd y mentrau a nododd yr Aelodau fod y Cynulliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o undod. Croesawyd y safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer cyffuriau ac alcohol ac awgrymwyd gwahodd Tîm Camddefnyddio Sylweddau Heddlu Gwent i Bwyllgor i roi cyflwyniad ar y gwaith y maent yn ei wneud yn y maes hwn.
- **Cymunedau yn Gyntaf** - gofynnwyd am ragor o fanylion am y Cyfarfodydd i Gydlynwyr a oedd wedi'u trefnu yn ddiweddarach yn y mis.
- **Merched Beichiog Digartref** - roedd y Pwyllgor yn falch bod camau wedi cael eu cymryd yn syth i ailgartrefu'r bobl hyn sy'n agored i niwed.
- **Model Cymunedau ar y Cyd** - a oes unrhyw dystiolaeth o lefel y diddordeb yn y model?

3. Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog:

- **Mesur Trwyddedu** - nid ei chyfrifoldeb hi oedd rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar y mater hwn ond roedd yn fodlon ysgrifennu at y Gweinidog priodol yn San Steffan yn nodi pryderon y Pwyllgor o ran penderfynu ar geisiadau am drwydded. Bydd yn rhaid i gynghorwyr lynu wrth y Cod Ymddygiad cyfredol heb ymwneud ag unrhyw geisiadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt. Awgrymwyd hefyd mai swyddogion ddylai ddelio â hyd at 25% o'r ceisiadau a dywedodd y Gweinidog fod hyn yn codi cwestiwn pwysig i lywodraeth leol ac os byddai'r Pwyllgor yn cytuno, y byddai'n ysgrifennu at yr Adran Diwylliant yn mynegi pryderon y Pwyllgor.
- **Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** - cytunodd y byddai'n ymgynghori â Phrif Gwnstabliaid ac eraill, gan gynnwys y Gweinidog dros Gyfle Cyfartal, ac y byddai'n llunio papur ar gyfer y Pwyllgor ar gasineb hiliol. Dywedodd y byddai'n rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar ba mor hawdd yw hi i gael grantiau Teledu Cylch Cyfyng a'r meini prawf gofynnol. Dywedodd y byddai'n ystyried yr awgrym o gydgysylltu Cynllun Heddlu'r Cynulliad â gwaith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
- **Safon Ansawdd Tai Cymru** - dywedodd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r asesiad cychwynnol a wnaed gan awdurdodau lleol.
- **Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol** - pwysleisiodd y bydd y cydweithio a'r arferion gwaith da presennol yn parhau o dan y trefniadau newydd. Pwrpas cynnwys y Comisiwn Archwilio yw ei gwneud yn haws dilyn trywydd yr arian a ddyrennir a darparu trywydd archwilio.
- **Cyfleusterau Ailsefydlu Preswyl ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau** - cytunodd y byddai'n darparu nodyn yn y cyfarfod nesaf.
- **Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf** - cytunodd y byddai'n darparu nodyn yn y cyfarfod nesaf.
- **Camddefnyddio Sylweddau** - dywedodd fod ganddi bryderon o hyd o ran datblygu'r polisi. Cytunodd y byddai Tîm Camddefnyddio Sylweddau Heddlu Gwent yn enghraifft ragorol o arferion gwaith da.
- **Cymunedau yn Gyntaf** - cytunodd y byddai'n darparu manylion y cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf.
- **Model Cymunedau ar y Cyd** - dywedodd fod rhai awdurdodau lleol wedi mynegi diddordeb mewn dilyn y model ac roedd yn gobeithio y byddai'r model yn datblygu yng Nghymru.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei hadroddiad a gofynnodd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ar y ddau OS drafft a restrwyd yn ei hadroddiad - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2003-2004) (Cymru) 2003

a Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau a nodwyd y byddai'r OSau yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Busnes.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ysgrifennu at ei chyd-Aelod yn San Steffan ynghylch rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, gan adlewyrchu pryderon y pwyllgor ynghylch penderfynu ar geisiadau am drwydded a'r posibilrwydd y bydd Swyddogion yn penderfynu arnynt

- Y Gweinidog i roi nodyn i'r Pwyllgor ar sut mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn bwriadu mynd i'r afael â throseddau casineb

- Y Gweinidog i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar ba mor hawdd yw hi i gael grantiau Teledu Cylch Cyfyng a'r meini prawf gofynnol
- Y Gweinidog i ystyried y posibilrwydd o gysylltu Cynllun Heddlu'r Cynulliad â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar gyfleusterau ailsefydlu preswyl ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf
- Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar nifer y Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n ymestyn dros fwy nag un ward
- Y Gweinidog i roi manylion i'r Aelodau am gyfarfodydd Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf
- Y Clerc i wahodd tîm Camddefnyddio Sylweddau Heddlu Gwent i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol

**<u>09.57am hyd 10.16am</u>**

**Eitem 5: Ystyried Trydydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol**
**LGH-05-03(p.3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad gan ddweud bod ei gynnwys a'i ymddangosiad wedi gwella llawer ar ôl sylwadau y llynedd ac roedd am gofnodi ei diolch i swyddogion am y gwaith aruthrol a wnaed i lunio'r adroddiad. Ychwanegodd y byddai'n hapus i gael sylwadau heddiw ac yn ysgrifenedig hyd at 14 Mawrth.

5.2 Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad a oedd, ychwanegwyd, yn ddogfen gyfeirio ragorol ar sut roedd y Cynulliad yn mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol yng Nghymru. Awgrymodd yr Aelodau y dylid cryfhau'r Adroddiad drafft yn y meysydd canlynol:

- Mae traean o blant Cymru yn byw islaw'r llinell dlodi ac awgrymwyd cynnwys cyswllt

rhwng Adran 3 ar fynd i'r afael â thlodi ac Adran 5 ar blant a phobl ifanc.

- Troseddau yn ymwneud â chasineb hiliol a thrais yn y cartref yn Adran 4.

- Y Panel Cynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau.

- Cyfeiriadau at gymorth i bobl hyn a phobl ag anableddau.

- Roedd Aelodau'n awyddus i gael cyfle arall i drafod Swyddfeydd Post yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig yn y trefniadau talu budd-daliadau a'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i helpu swyddfeydd post y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cynulliad fynegi ei safbwynt yn gliriach mewn meysydd fel hyn nad oedd wedi'u datganoli, lle y mae ganddo bryderon ond lle y mae hefyd yn gweithredu. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y diffiniad o swyddfa bost drefol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am eglurhad pellach ar Gronfa Amddifadedd Swyddfa'r Post a Chronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post.

- Mae fferyllfeydd mewn ardaloedd difreintiedig - fel Swyddfeydd Post - yn wasanaethau cymunedol hanfodol. Yno y bydd pobl yn galw gyntaf am gyngor yn aml, sy'n rhyddhau amser meddygon teulu.

3. Dywedodd y Gweinidog:

- Byddai'n gofyn i swyddogion fynd ati i geisio cryfhau'r meysydd sy'n ymwneud â thlodi plant, troseddau casineb a'r Panel Cynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r ystyriaeth i roi cymorth i bobl hyn a phobl ag anableddau.
- Dywedodd fod trais yn y cartref yn cael ei adolygu.
- Addawodd y byddai'n ysgrifennu at Postwatch a DWP ynghylch pryderon a godwyd ynghylch y gwasanaeth y mae Llinell Gymorth Swyddfa'r Post yn ei ddarparu a oedd, fe honnid, yn darparu gwybodaeth anghywir a chamarweiniol. Dywedodd y byddai hefyd yn ceisio eglurhad ynghylch y ffordd y mae Post Office Cyf yn rhannu canghennau i ddau gategori - trefol neu wledig. Cytunodd hefyd y byddai'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y Cynllun Mân-Adwerthwyr mewn Ardaloedd Difreintiedig a Chronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post.
- Dywedodd fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynegi pryder ynghylch y mater sy'n ymwneud â fferyllfeydd a chytunodd y byddai'n ysgrifennu at Jane Hutt yn mynegi pryderon y Pwyllgor.

5.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch barn y Pwyllgor.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ysgrifennu at Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Post Watch a Post Office Cyf mewn perthynas â phennu swyddfeydd post trefol a'u rôl wrth ddelio â thaliadau budd-dâl.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor ar y Cynllun Mân-Adwerthwyr mewn Ardaloedd Difreintiedig a Chronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post
- Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar y sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y bygythiad posib i fferyllfeydd lleol yn sgil cael fferyllfeydd mewn archfarchnadoedd maestrefol
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor ar yr adroddiad drafft ar Gynhwysiant Cymdeithasol

**<u>10.16am hyd 10.30am</u>**

**Eitem 6: Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**LGH-05-03(p.4)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur.
2. Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- Byddai unrhyw newidiadau yn galw am ddeddfwriaeth ar lefel y DU.
- Cafwyd consensws bod achos moesol dros ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed a'r oedran pan ellid bod yn ymgeisydd mewn etholiad i 18 oed. Teimlwyd y gallai'r newid hwn roi dimensiwn newydd i wleidyddiaeth.
- Nodwyd bod nifer cynyddol o gynghorau ieuenctid a seneddau ysgol a bod diddordeb gan bobl ifanc mewn gwleidyddiaeth a'u dyfodol.

1. Awgrymodd y Gweinidog, gan fod consensws yn y Pwyllgor ar y mater hwn a'i phapur cynharach - LGH-04-03(p.1), - ei bod yn paratoi adroddiad drafft yn barod ar gyfer ei Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth a'i bod yn ei ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt roi eu sylwadau. Cytunodd yr Aelodau i'r awgrym hwn.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddosbarthu drafft i'r Aelodau o'i datganiad arfaethedig i'r Cyfarfod Llawn ar y materion hynny yn Adroddiad Sunderland sy'n cael cefnogaeth drawsbleidiol.

**10.30am hyd 10.50am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 20 munud.

**10.50am hyd 10.54am**

Cyn Eitem 7, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oeddent yn hapus i'r Gweinidog roi cyflwyniad i'r Comisiynydd Plant ar oblygiadau argymhellion Waterhouse i awdurdodau lleol, gan gofio buddiant a chanfyddiadau'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau yn cytuno ond awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd hefyd fod yn bresennol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi adroddiad ar y camau nesaf i'w cymryd yn y cyfarfod nesaf.

**10.54am hyd 12.35pm**

**Eitem 7: Cyflwyniad gan Asiantaethau Cyffuriau**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y sefydliadau sy'n gysylltiedig ag atal a thrin problem camddefnyddio sylweddau a oedd wedi'u gwahodd i gyfarfod heddiw. Ychwanegodd fod y Pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar y mater difrifol hwn. Dyma'r sefydliadau a gynrychiolwyd:

- **Richard Pates a Rhoda Emlyn-Jones** a gynrychiolai **Opsiwn 2**, prosiect bach sy'n gweithio gyda theuluoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg lle mae pryderon difrifol ynghylch diogelu plant a lle mae rhieni yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Yn ddiweddar, enillodd y Prosiect Wobr Gofal yn y Gymuned am Ddiogelu Plant ac fe'i hystyrir yn enghraifft wych o waith ataliol. Mae Richard Pates hefyd yn Gadeirydd y Panel Cynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau.
- **Emlyn Jenkins ac Alistair Lang** o brosiect **DARE** (Addysg Gwrthsefyll Camddefnyddio Cyffuriau) sef prosiect sy'n canolbwyntio ar ysgolion ac sy'n cael ei redeg gan Heddlu De Cymru mewn 22 o ysgolion cynradd yng Nghymoedd Rhondda.
- **Dr Mel Bagshaw** oedd yn cynrychioli'r Cardiff Addictions Unit sy'n rhedeg cynllun gofal

a rennir gan feddygon teulu ac fe'i hystyrir yn arloesol iawn.

- **Roger Duncan** oedd yn cynrychioli **Prosiect Cyffuriau Abertawe** sef prosiect cadarnhaol i helpu rhieni. Mae'n cyflogi gweithiwr teulu llawnamser ac yn cefnogi teuluoedd, gan nodi anghenion cleientiaid sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn enwedig y rhieni hynny sydd â phlant rhwng 0 a 4 mlwydd oed.

- Bydd **Aneurin Owen** o **CAIS** yn trafod Prosiect DAWN. Mae gwasanaeth rhagorol yng Ngogledd Cymru sy'n ailsefydlu pobl sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol a throseddwyr, ac mae Prosiect DAWN yn ei ddefnyddio fel sylfaen drwy dynnu ynghyd brif asiantaethau'r meysydd hyn a darparu gwasanaeth di-dor. Mae hyn yn pontio'r bwlch rhwng triniaeth y bobl hyn, sy'n anodd eu cyrraedd ac a eithrir yn aml, a'r amser pan fo angen eu cyflwyno i addysg bellach, hyfforddiant a gwaith.

- **Andy Evason** o **Gyngor Gorllewin Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.** Asiantaeth wirfoddol sy'n darparu gwybodaeth; cyngor; cwnsela; gwaith grwp; ymweliadau cartref; ôl-ofal; galw i mewn; hyfforddiant; gwaith ieuenctid. Mae'n gweithredu athroniaeth o lwyr ymwrthodiad.

Mae copïau o'r holl gyflwyniadau yn Atodiad 1.

2. Roedd yr Aelodau yn unfryd eu cefnogaeth i'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan yr holl sefydliadau a oedd yn cael eu cynrychioli heddiw, ac roeddent yn cael cysur o weld pa waith oedd yn cael ei wneud yn y rheng flaen i fynd i'r afael â'r problemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol sy'n effeithio ar Gymru. Gwnaed y pwyntiau penodol canlynol:

- Gwerthfawrogwyd y cais am arian ychwanegol.
- Mae cywilydd a'r argraff sydd gan bobl o gamddefnyddio sylweddau yn rhwystr i rai grwpiau rhag cael eu trin.
- Roeddent yn edmygu'r Cynllun Rhannu Gofal â Meddygon Teulu. Gofynnwyd a yw'r gwasanaeth yn cwmpasu Awdurdod Iechyd Bro Taf yn ei gyfanrwydd a faint o gleifion oedd ar y cynllun.
- O ran Opsiwn 2, pa ran sydd i weithredu fel rhiant corfforaethol o fewn y cynllun? Beth sy'n dylanwadu ar y penderfyniad ar ddiwedd y cyfnod 4-6 wythnos neu cyn hynny, sef a oes angen rhoi plentyn/plant ar y Gofrestr Diogelu Plant?
- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i fabwysiadu cynllun Opsiwn 2 ledled Cymru?
- Roedd y cyflwyniad yn dangos dyfnder a bod amrywiaeth o brosiectau niferus yn cael eu cynnal. Efallai y gallai'r Pwyllgor ystyried sut i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu ac ehangu'r gwasanaethau ledled Cymru a rhannu'r arferion da.
- Gofynnwyd am eglurhad ar yr adolygiad diweddar.

2. Mewn ymateb, dywedodd y Panel:

- Lansiwyd y Cynllun Rhannu Gofal â Meddygon Teulu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ond mae cynllun lloeren yn agor yn Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd mae 54 o gleifion ar y cynllun gyda 5 arall yn aros i gael ymuno. Mae lle i ddiolch i gefnogaeth y fferyllwyr lleol hefyd am lwyddiant y Cynllun.
- Ar hyn o bryd mae gan Opsiwn 2 ddau therapydd yng Nghaerdydd a dau ym Mro Morgannwg. Mae awdurdodau eraill yng Nghymru wedi dangos diddordeb ac yn ddiweddar cyflwynodd Manceinion gynllun wedi'i fodelu ar Opsiwn 2. Bu'n gost-effeithiol drwy adael plant gartref ac mae wedi'i gwneud yn bosib i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Mae'n rhaid i Weithiwr Cymdeithasol gweithgar gomisiynu'r gwasanaeth ac mae asesiadau risg llawn yn cael eu cynnal. Ar ddiwedd y cyfnod, mae'r achos yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Gweithiwr Cymdeithasol i'w gynnal a'i fonitro.
- Bwriad yr adolygiad diweddar oedd archwilio cynlluniau'r systemau triniaeth cyfredol sydd yn eu lle, nid eu gwerthuso. Nid yw'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi eto. Casglwyd tystiolaeth drwy'r pum Tîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru gyda chymorth ymchwilwyr proffesiynol. Mae llawer wedi'i ddysgu o ymarfer tebyg a gychwynnwyd gan Weithrediaeth yr Alban 18 mis yn ôl. Ei nod oedd sicrhau bod safonau cyffredin a rheoli arian mewn ffordd dda o'r pwys mwyaf.

2. I gloi, dywedodd y Cadeirydd fod yr awgrym y dylai'r Pwyllgor gynnal adolygiad wedi'i nodi ac y byddai'r Pwyllgor newydd ar ôl yr etholiad yn ystyried y mater.
3. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am ddod i'r Pwyllgor a hefyd am y gwaith rhagorol y maent oll yn ei wneud ym maes atal a thrin problem camddefnyddio sylweddau.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Mawrth 2003